# CYNGOR CYMUNED LLANLLYFNI

**Blwyddyn ariannol yn dod i ben ar 31 Mawrth 2023.**

**Dyddiad cyhoeddi – 18 Mehefin 2023**

Bob blwyddyn, archwilir y cyfrifon blynyddol gan Archwilydd Cyffredinol Cymru. Cyn y dyddiad hwn, mae unrhyw berson â diddordeb yn cael cyfle i archwilio a gwneud copïau o'r cyfrifon a'r holl lyfrau, gweithredoedd, contractau, biliau, talebau a derbynebau ac yn y blaen sy'n ymwneud â hwy am 20 diwrnod gwaith ar rybudd rhesymol. Ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben 31 Mawrth 2023, bydd y dogfennau hyn ar gael ar rybudd rhesymol ar gais i:

Nia Jones, Clerc Cyngor Cymuned Llanllyfni,
Tan Y Perthi, Llanllyfni, Caernarfon. LL54 6SB

01286 881889

cyngorcymunedllanllyfni@gmail.com

Rhwng yr oriau o 1700 a 2000 o ddydd Mawrth i ddydd Iau

Yn dechrau ar 3 Gorffennaf 2023 ac yn dod i ben ar 28 Gorffennaf 2023.

O 11 Medi 2023, hyd nes y bydd yr archwiliad wedi ei gwblhau, mae gan Etholwyr Llywodraeth Leol a'u cynrychiolwyr hefyd:

- Yr hawl i holi'r Archwilydd Cyffredinol ynglŷn â'r cyfrifon.
- Yr hawl i ddod gerbron yr Archwilydd Cyffredinol a mynegi gwrthwynebiad i'r cyfrifon neu unrhyw eitem ynddynt. Rhaid rhoi rhybudd ysgrifenedig o wrthwynebiad i'r Archwilydd Cyffredinol yn gyntaf. Rhaid rhoi copi o'r rhybudd ysgrifenedig hefyd i'r Cyngor.

Gellir cysylltu a'r Archwilydd Cyffredinol drwy: Archwiliadau Cynghorau Cymuned, Archwilio Cymru, 1 Cwr Y Ddinas, Stryd Tyndall, Caerdydd, CF10 4BZ.

Cynhelir yr archwiliad o dan ddarpariaethau Deddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2004, Rheoliadau Cyfrifon ac Archwilio (Cymru) 2014 a Chôd Ymarfer Archwilio Archwilydd Cyffredinol Cymru.